

## **Astudiaeth Achos GCC – Mawrth 2021**

### **Academi Ieuentid Casnewydd – Person ifanc yn symud ymlaen i gyflogaeth**

Cefnogwyd AS gan staff yn yr Hyb Cymdogaeth sy'n cael eu hariannu drwy'r GCC, gan gynnwys mentor cyflogaeth, Gweithiwr Ymyrraeth Teulu, staff Hyfforddiant Ieuentid, Swyddog Lleoliad Cyflogaeth, Gofal Plant a staff Chwarae.

Magwyd AS yng Nghasnewydd. Roedd yn mynychu Canolfan Hope yn rheolaidd ac elwodd ar nifer o brosiectau a gynhaliwyd gan Cymunedau yn Gyntaf wrth iddo dyfu i fyny. Roedd AS yn blentyn swil a oedd yn cael trafferth mewn grwpiau cymdeithasol yn ogystal ag yn academiaidd.

Roedd AS wedi gorffen yr ysgol ac yn gwneud gwaith achlysurol mewn gwesty lleol. Nid oedd yn mwynhau ei gyflogaeth ac roedd am ddatblygu ei sgiliau a'i wybodaeth i wella ei opsiynau ar gyfer y dyfodol. Ym mis Hydref 2018 ymunodd AS â rhaglen Hyfforddeiaeth Academi Ieuentid Casnewydd (a ariannwyd drwy Legacy) i wneud Chwaraeon Lefel 1.

O'r cychwyn cyntaf dangosodd AS agwedd aeddfed iawn at ei ddysgu a'i ddatblygiad. Roedd y rhaglen Hyfforddeiaeth yn caniatáu i AS gael mwy o wybodaeth am weithio gyda phobl ifanc, profiad ymarferol mewn gwahanol leoliadau, a chymwysterau achrededig, gan gynnwys:

- Arweinwyr Pêl-droed Lefel 1 Cymdeithas Bêl-droed Cymru
- Diogelu Lefel 2 ac Amddiffyn Plant
- Cymorth Gyntaf Lefel 3
- Hylendid bwyd Lefel 2
- Gwobr Arweinwyr Chwaraeon Lefel 2
- AON, Cyfathrebu a Chymhwyster Sgiliau Hanfodol Cyflogadwyedd

Yn ystod ei gyfnod gyda AIC, roedd AS yn awyddus iawn i gael cymaint o brofiad â phosibl a thrwy ein partneriaethau ag ysgolion lleol, grwpiau cymunedol, Casnewydd Fyw a Gemau Stryd, cefnogwyd AS i gynnal sesiynau mewn ysgolion a chymunedau ledled y ddinas. Fe'i gwahoddwyd i ymweld â'r Senedd drwy ei waith gyda'r rhaglen Wirfoddoli BeActive, ac fe'i enwebwyd hefyd ar gyfer Gwirfoddolwr y Flwyddyn gyda Gemau Stryd.

Drwy gydol ei gyfnod gyda'r AIC, gwnaeth AS gynnydd gwych a thyfodd yn ddyn ifanc hyderus. Talodd ei waith caled ar ei ganfed ac ym mis Mawrth 2020 aeth ymlaen i gyflogaeth gyda Chyngor Dinas Casnewydd, gan ddarparu gofal plant a chymorth chwarae i blant Gweithwyr Allweddol yn ystod pandemig y Coronafeirws. Law yn llaw â hyn, bu hefyd yn gweithio fel Cynorthwy-ydd Gwerthu rhan amser gyda manwerthwr chwaraeon.